Mawrth 2022

**Cymryd rhan mewn Paratoi Cynllun Datblygu Lleol**

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dylanwadu'n gryf ar y Cynllun Datblygu Lleol.[1] Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi egwyddorion allweddol y system gynllunio ac mae'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r cysylltiadau agos rhwng cynllunio ac iechyd a llesiant. Mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau lleol penodol i esbonio neu ddatblygu polisïau cenedlaethol ymhellach gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Ceir system a arweinir gan gynlluniau yng Nghymru ac mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r cynigion a'r polisïau ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y dyfodol. Mae'r 'cynllun datblygu' yng Nghymru yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040[2], sef yr haen genedlaethol, sef y Cynlluniau Datblygu Strategol, yr haen ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r system a arweinir gan gynlluniau yng Nghymru yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd am y math o ddatblygiadau a ganiateir mewn lleoliad penodol dros gyfnod y cynllun. Penderfynir ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu neu unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae'n bwysig felly creu fframwaith polisi cryf i sicrhau bod ceisiadau cynllunio'n cyflawni canlyniadau iechyd a llesiant, gan edrych ar wasanaethau a chyfleusterau yn ogystal â phenderfynyddion ehangach iechyd a chanlyniadau iechyd y cyhoedd. Ceir rhagor o fanylion am baratoi cynlluniau datblygu yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu[3] a'r Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Chynlluniau Datblygu Lleol: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer[4].

| **Cam y Cynllun** | | **Cyfle i wneud y canlynol:** |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyflenwi a Chynllun Cynnwys Cymunedau | Mae'r cytundeb cyflenwi yn ymgorffori'r Cynllun Cynnwys Cymunedau ac yn nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid fod yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol a'i lunio. | • Ymateb i ymgynghoriad ar y cytundeb cyflenwi a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (ymateb cydgysylltiedig sy'n cwmpasu gwasanaethau gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd).<br>• Cwblhau'r templed – Traciwr Cynllun Datblygu |
| Cyn Adneuo, gan gynnwys:<br>• Cwmpasu asesiadau o'r effaith | Camau cynnar cynhyrchu cynlluniau sy'n bwysig er mwyn ymgysylltu'n gynnar a rhoi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y broses o lunio'r cynllun. Nodi bylchau a gwneud gwaith ymchwil pellach. | • Rhannu cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd gan gynnwys unrhyw strategaethau ystadau a chyflwyno safleoedd ymgeisiol i'r broses 'galw am safleoedd' er mwyn ystyried anghenion gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol (Bwrdd Iechyd Lleol) |

[1] Polisi cynllunio Cymru | LLYW. CYMRU
[2] Cymru'r Dyfodol Y Cynllun Cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU
[3] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU
[4] https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/10/HIA-and-LDPs-Toolkit-Cym-Final.pdf (phwwhocc.co.uk)

| | | |
|---|---|---|
| • Sylfaen dystiolaeth<br>• Safleoedd Ymgeisiol | | • Rhannu data a thystiolaeth – anghenion ac anghydraddoldebau ar lefel y boblogaeth ac ati. (Tîm iechyd y cyhoedd lleol)<br>• Rhannu blaenoriaethau iechyd a llesiant a gofal iechyd lleol (cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd Lleol / Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)<br>• Ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod cam cwmpasu asesiadau o'r effaith (ymateb cydgysylltiedig rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r tîm iechyd y cyhoedd lleol) |
| Strategaeth a Ffefrir ac Asesiadau o'r Effaith gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Dyma'r cam lle ceir ymgysylltiad cynnar a ffurfiol ar dystiolaeth, materion, amcanion, dewisiadau amgen, dyrannu safleoedd, polisïau ac asesiadau o'r effaith.<br>Mae llawer o awdurdodau cynllunio bellach yn cynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer eu cynlluniau. Gall hyn fod yn Asesiad o'r Effaith ar Iechyd annibynnol neu gellir ei integreiddio yn eu Harfarniad Cynaliadwyedd /Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd yn bwysig adolygu a rhoi sylwadau ar yr asesiadau o'r effaith hyn yn ogystal â'r cynllun i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ar yr holl faterion iechyd, llesiant a thegwch. | • Helpu i lunio ymagwedd 'iechyd ym mhob polisi' / polisïau iechyd penodol (Tîm iechyd y cyhoedd lleol)<br>• Darparu safleoedd pellach os oes angen a rhoi sylwadau ar safleoedd wedi'u rhoi ar y rhestr fer ac ymgysylltu â nhw o'r broses safleoedd ymgeisiol (Byrddau Iechyd Lleol)<br>• Eistedd ar y grŵp llywio ar gyfer gwaith asesu effaith, rhannu data a thystiolaeth.<br>• Cyflwyno ymateb ffurfiol i ymgynghoriad gan gynnwys sylwadau ar asesiadau effaith. (ymateb cydgysylltiedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol/ tîm iechyd y cyhoedd lleol) |
| Cynllun Adneuo ac Asesiadau o'r Effaith gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Yn dilyn cam y Strategaeth a Ffefrir a chanlyniadau'r ymgynghoriad. Y Cynllun Adneuo yw'r cynllun y bydd yr awdurdod o'r farn ei fod yn fersiwn i'w gyflwyno er mwyn ei archwilio. Bydd yn nodi'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau yn seiliedig ar y materion allweddol, yr amcanion a'r dystiolaeth ategol ac wedi'i ategu gan asesiadau o'r effaith. Bydd yn bwysig adolygu a rhoi sylwadau ar yr asesiadau o'r effaith hyn yn ogystal â'r cynllun i sicrhau eu | • Ymateb i ymgynghoriad ffurfiol y cynllun gan gynnwys y strategaeth, polisïau, dyraniadau ac asesiadau o'r effaith. (Ymateb cydgysylltiedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol/ Tîm Iechyd y Cyhoeddlleol)<br>• Helpu i lunio'r fframwaith monitro. (Bwrdd Iechyd Lleol/Tîm iechyd y cyhoedd lleol)<br>• Nodi unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol a pha gymorth y gellir ei ddarparu. |

| | | |
|---|---|---|
| | bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ar yr holl faterion iechyd, llesiant a thegwch. | |
| Archwilio | Dyma lle bydd y cynllun yn cael ei brofi gan yr arolygydd cynllunio ar ffurf trafodaethau pwnc. Yn ystod y broses archwilio gellir gwneud newidiadau penodol i'r cynllun ond bydd rhain yn newidiadau eithriadol. Byddai ymgynghoriad ffurfiol ar unrhyw newidiadau penodol. | • Mynychu sesiynau gwrandawiad os oes angen, i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth arbenigol.<br>• Ymateb i unrhyw ymgynghoriad ychwanegol. |
| Cyhoeddi a Mabwysiadu Adroddiad yr Arolygydd | Mae adroddiad yr Arolygydd yn derfynol ac ar ôl ei dderbyn rhaid i'r awdurdod fabwysiadu'r cynllun a'i gyhoeddi. Daw'r cynllun i rym pan gaiff ei fabwysiadu | • Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol. |
| Monitro ac Adolygu | Rhaid i'r awdurdod lunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gan gynnwys yr asesiadau o'r effaith. | • Darparu dangosyddion a thargedau ar gyfer monitro iechyd a llesiant.<br>• Darparu data a thystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol.<br>• Cynllunwyr i rannu data â chydweithwyr iechyd ynghylch cyfraddau cwblhau ac ati. |
| Adroddiad Adolygu | Bydd rhaid adolygu pob Cynllun Datblygu Lleol bob 4 blynedd. Bydd yr adroddiad adolygu yn nodi pam mae angen adolygu'r cynllun a bydd yn seiliedig ar fonitro a thystiolaeth. | • Ymateb i ymgynghoriad ar adroddiad adolygu a chytundeb cyflenwi (ymateb cydgysylltiedig sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd). Ymdrin â materion fel cryfder ffocws iechyd a llesiant yn y Cynllun Datblygu Lleol, darpariaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, ystyried teithio llesol, mannau gwyrdd a chymdogaethau cerddadwy.<br>• Parhau i gymryd rhan ym mhroses yr Adroddiad Monitro Blynyddol |
| Canllawiau Cynllunio Atodol | Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ond maent yn darparu canllawiau ychwanegol ar gyfer polisïau o fewn y cynllun. | • Helpu i lunio Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag iechyd<br>• Ymateb i ymgynghoriadau ar Ganllawiau Cynllunio Atodol |

Mawrth 2022

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol helpu i lunio’r Cynllun Datblygu Lleol drwy gydol ei ddatblygiad gan gynnwys rhannu tystiolaeth, data a gwybodaeth. Mae’n bwysig ymgysylltu cyn gynted â phosibl a chael cyfranogiad parhaus nid yn unig ar y camau statudol. Gall yr offeryn tracio cynllun datblygu eich helpu i olrhain cynnydd unrhyw gynlluniau datblygu yn eich ardal. Ar bob cam, bydd yn ddefnyddiol darparu ***un ymateb lleol cydgysylltiedig*** gan yr holl weithiwr iechyd proffesiynol priodol gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol (gan gynnwys Ystadau, Gofal Sylfaenol, Gofal Eilaidd a Chymunedol, Cynllunio Strategol ac Iechyd Meddwl), Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol Cymru a'r Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol. Os na fydd hyn yn bosibl, yna mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pwy sydd wedi ymateb ac ar ba agweddau a gwneud yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i’r timau iechyd eraill er gwybodaeth iddynt.

Ar lefel genedlaethol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ymatebion i ymgynghoriadau drwy Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol Cymru ar faterion iechyd yr amgylchedd, a gall Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru gynghori ar Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Mae’n bosibl y bydd cyfleoedd i gysylltu â sefydliadau eraill hefyd megis Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio i wneud y mwyaf o ganlyniadau, cyflawni blaenoriaethau traws-sector, lleihau gwrthdaro ac osgoi dyblygu.